



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Swyddogaethau Trwyddedu Petrolewm yng Nghymru: Cwestiynau Cyffredin

Ffoto gan Dr Ian G. Stimpson – Seismolegydd, geoffisegydd a daearegydd ym Mhrifysgol Keele.

Contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0 – PEDL cyfredol ag erwau yng Nghymru (PEDL Gogledd Cymru a PEDL De Cymru)

Swyddogaethau Trwyddedu Petrolewm yng Nghymru: Cwestiynau Cyffredin

Cyflwyniad

O 1 Hydref 2018, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am drwyddedu'r gwaith o fforio a datblygu adnoddau petrolewm ar y tir Cymru. Yn Lloegr, mae'r swyddogaethau trwyddedu yn parhau i gael eu cyflawni gan yr Awdurdod Olew a Nwy.

Bwriedir i'r wybodaeth yn y ddogfen hon gynnig ymatebion i'r cwestiynau cyffredin sy'n gysylltiedig â swyddogaethau trwyddedu olew a nwy ar y tri yng Nghymru. Mae'r ymatebion wedi eu cyffredinoli, ac nid ydynt yn cyfeirio at unrhyw drwydded, safle, gweithredwr neu leoliad penodol.

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer cynulleidfa annhechnegol, a'i nod yw cynnig dealltwriaeth eang o'r materion, yn hytrach na dadansoddiad manwl. Mae canllawiau technegol hefyd ar gael ar gyfer trwyddedau.

Swyddogaethau Trwyddedu Petrolewm

1. Beth yw'r swyddogaethau trwyddedu newydd ar gyfer Cymru?

Ar 1 Hydref 2018, trosglwyddodd adran 23 [Deddf Cymru 2017](#) swyddogaethau o dan Ran 1 [Deddf Petrolewm 1998](#) o'r [Awdurdod Olew a Nwy](#) i Weinidogion Cymru o ran ardal ar y tir Cymru. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am drwyddedu'r gwaith o fforio a datblygu adnoddau petrolewm ar y tir Cymru.

Mae Rhan 1 Deddf Petrolewm 1998 yn diffinio petrolewm (hydrocarbonau olew a nwy) ac yn breinio pob hawl iddo i'r Goron. Mae'r Ddeddf hefyd yn grymuso Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu yng Nghymru, i roi trwyddedau i chwilio, tyllu am a chael petrolewm ar ran y Goron, yn gyfnewid am gydnabyddiaeth (y cyfeirir ati fel rhent).

2. Pwy fydd yn rheoli'r swyddogaethau trwyddedu petrolewm yng Nghymru?

Caiff y swyddogaethau trwyddedu petrolewm ar gyfer erwau trwyddedu yng Nghymru eu cyflawni gan Weinidogion Cymru. Fel yr awdurdod trwyddedu, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar ba un a ddylid cyflwyno trwyddedau newydd yn ogystal â rheoli trwyddedau presennol a gyflwynwyd cyn 1 Hydref 2018 yn unol â chymalau enghreifftiol trwyddedau.

3. Pam ydych chi wedi trosglwyddo'r swyddogaethau trwyddedu petrolewm os yw Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i ddatgarboneiddio?

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i reoli'r trwyddedau petrolewm presennol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU cyn 1 Hydref 2018. Dim ond ar ôl trosglwyddo'r swyddogaethau trwyddedu y gall Gweinidogion Cymru reoli trwyddedau presennol yn effeithiol a chyflwyno polisi trwyddedu petrolewm newydd.

4. A yw swyddogaethau trwyddedu petrolewm Cymru yn cynnwys echdynnu petrolewm confensiynol ac anghonfensiynol?

Mae petrolewm, fel y diffinnir gan Ran 1 Deddf Petrolewm 1998, yn cynnwys unrhyw olew mwynol neu hydrocarbon perthynol a nwy naturiol sy'n bodoli yn ei gyflwr naturiol mewn strata. Nid yw'r Ddeddf, ac felly'r trwyddedau petrolewm sy'n deillio o'r Ddeddf, yn gwahaniaethu rhwng echdynnu petrolewm confensiynol ac anghonfensiynol. Felly mae swyddogaethau trwyddedu Gweinidogion Cymru yn cynnwys echdynnu petrolewm confensiynol ac anghonfensiynol.

Fodd bynnag, gallai'r rhaglenni gwaith sy'n rhan o'r drwydded ddynodi pa un a yw'r datblygiad arfaethedig yn gysylltiedig â ffynonellau confensiynol neu anghonfensiynol.

5. Beth yr ardal trwyddedu olew a nwy ar y tir Cymru?

Mae darpariaethau trwyddedu petrolewm ar y tir Deddf Cymru 2017 yn cyfeirio at linellau sylfaenol ac ystyrir bod yr ardal o fewn y llinell sylfaen ar y tir (neu tua'r tir) at ddiben trwyddedu petrolewm Cymru.

Defnyddir y term "landward area" hefyd yn [Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm \(Fforio a Chynhyrchu\) \(Ardaloedd Tua'r Tir\) 2014](#) i olygu'r ardal o fewn y llinellau sylfaen a sefydlir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 1(1)(b) Deddf Môr Tiriogaethol 1987 (estyniad o fôr tiriogaethol).

Mae [Deddf Môr Tiriogaethol 1987](#) yn darparu ar gyfer pennu'r llinellau sylfaen hyn, sef y llinell ddistyll fel rheol. Fodd bynnag, gall y tu mewn i'r llinellau sylfaen hyn gynnwys rhai dyfroedd; baeau, aberoedd neu debyg y cyfeirir atynt fel dyfroedd mewnol ac sy'n cael eu trin fel ar y tir.

6. Pa fathau o drwyddedau y gall Gweinidogion Cymru eu cyflwyno?

Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ganiatáu, gweinyddu a rheoleiddio tri gwahanol fath o drwydded petrolewm:

- **Trwyddedau Fforio a Datblygu Petrolewm (PEDL)**
- Mae **Trwyddedau Fforio Petrolewm Tua'r Tir (XL)** ar gael i gwmnïau sy'n aros i fforio ond nad oes angen hawliau unigryw arnynt i ddrilio neu gynhyrchu petrolewm. Fe'u defnyddir yn gyffredin gan gontractwyr seismig sy'n casglu data i'w gwerthu yn hytrach na manteisio ar yr adnoddau eu hunain.
- **Trwyddedau Draenio Methan (MDL)** Mae angen MDL os oes yn rhaid i weithredwr neu berchennog pwll glo gasglu nwy naturiol i wneud y pwll yn ddiogel.

Caiff PEDL newydd ei wneud ar gael mewn rowndiau trwyddedau cystadleuol yn unig fel rheol. Caiff gwahoddiadau am geisiadau eu gwneud gan yr awdurdod trwyddedau a chaiff y geisiadau eu hasesu ar sail eu rhinweddau yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol a nodwyd ymlaen llaw. Gall cwmnïau wneud cais am drwydded XL neu MDL ar unrhyw adeg.

7. Beth yw Trwydded Fforio a Datblygu Petrolewm (PEDL)?

Mae PEDL yn caniatáu hawliau unigryw i chwilio a thyllu am betrolewm mewn ardal benodol (bloc PEDL), a'i gael. Mae PEDL yn cwmpasu gwahanol gamau cylch datblygu o fforio i werthuso, cynhyrchu ac, yn y pen draw, datgomisiynu'r ffynhonnau. Nid yw PEDL yn cael gwared ar yr angen am ganiatâd ar gyfer gweithrediadau penodol sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Mae angen cydsyniad ychwanegol gan y tîrfeddiannydd, yr Awdurdod Cynllunio Lleol, [Cyfoeth Naturiol Cymru](#) a'r [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#) hefyd.

Bu 14 o rowndiau trwyddedu ar y tir hyd yn hyn. Cynhaliwyd y rownd drwyddedu ddiwethaf a oedd yn cynnwys erwau yng Nghymru, y 13eg Rownd, yn 2008 gan Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU ar y pryd dros yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio. Ni ddyfarnwyd unrhyw drwyddedau yng Nghymru yn ystod y 14eg rownd drwyddedu ar y tir a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Olew a Nwy yn 2014.

8. Beth yw Tymor PEDL?

Mae PEDL yn para tri thymor olynol yn nodweddiadol:

- Tymor Cychwynnol (6 mlynedd)
- Ail Dymor (4 mlynedd)
- Tymor Cynhyrchu (20 mlynedd)

Mae rhannu cylch oes trwydded olew a nwy rhwng y tri Tymor hyn yn darparu rhwystrau eglur ar gyfer cynnydd deiliad y drwydded (dod o hyd i'r hydrocarbonau, cynllunio ar gyfer eu hechdynnu a'r echdynnu ei hun). Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau nad yw deiliaid y drwydded yn cadw hawliau unigryw dros fforio ac echdynnu hydrocarbon heb wneud digon o waith i gyfiawnhau hyn.

Mae deiliad y drwydded yn cyflawni "Rhaglen Waith" a gytunir yn ystod y tymor cychwynnol, yn deillio o gynigion cais deiliad y drwydded, i fforio a darganfod a oes casgliad o betrolewm ("maes") o dan y bloc.

Yn ystod yr ail dymor, bydd angen i ddeiliad y drwydded geisio cymeradwyaeth Gweinidog Cymru i Gynllun Datblygu'r Maes a chael caniatâd cynllunio a mathau eraill o ganiatâd rheoleiddio ar gyfer y gweithgareddau hynny. Yn ystod y tymor cynhyrchu, yn amodol ar gymeradwyaeth i'r Cynllun Datblygu'r Maes, bydd deiliad y drwydded yn drilio ffynhonnau cynhyrchu, yn adeiladu cyfleusterau trin ac yn cynhyrchu'r olew a'r nwy.

Bydd y drwydded hon yn dod i ben ar ddiwedd y tymor cychwynnol oni bai fod deiliad y drwydded wedi cwblhau'r rhaglen waith a gytunwyd, neu wedi gwneud cais llwyddiannus am estyniad i'r cyfnod fforio gan Weinidogion Cymru. Bydd y drwydded yn dod i ben ar ddiwedd ei hail dymor oni bai fod Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Datblygu'r Maes.

9. Beth yw Cymal Enghreifftiol trwydded?

Rhagnodir telerau ac amodau manwl pob trwydded mewn cyfres o Gymalau Enghreifftiol, a nodir mewn deddfwriaeth eilaidd a wneir o dan Ddeddf Petrolewm 1998. Y Cymalau Enghreifftiol sy'n berthnasol i drwydded benodol yw'r rheini sydd ar waith ar yr adeg y caniatawyd y drwydded. Pan fydd y drwydded yn cael ei chaniatáu, caiff y cymalau enghreifftiol hyn eu cynnwys yn y drwydded. Nid yw Cymalau Enghreifftiol yn cael eu heffeithio gan gyfresi dilynol o Gymalau Enghreifftiol, ac eithrio trwy fesurau ôl-weithredol penodol.

Nodir y Cymalau Enghreifftiol diweddaraf yn [Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm \(Fforio a Chynhyrchu\) \(Ardaloedd Tua'r Tir\) 2014](#).

Mae Cymalau Enghreifftiol yn nodi pa weithgareddau y mae angen cydsyniad gan Weinidogion Cymru ar eu cyfer, rhwymedigaethau gweithio, a phwerau dirymu ymhlith pethau eraill.

10. Beth yw cydsyniad trwydded petrolewm?

Mae pob PEDL yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwydded dderbyn cydsyniad Gweinidogion Cymru i weithgareddau penodol. Gellir categorïddio'r cydsyniadau hyn yn eang fel:

- Cymeradwyaeth i gynlluniau datblygu.
- Cydsyniad i ddrilio, atal neu adael ffynnon.
- Cydsyniad i gynhyrchu petrolewm neu ffaglu neu ollwng nwy gwastraff.
- Cymeradwyaeth i gymhwysedd y gweithredwr gosod ffynnon.
- Cymeradwyaeth i werthu trwyddedau presennol neu newid buddiolwyr.
- Cymeradwyaeth i estyniadau amser i dymor cychwynnol, ail dymor neu dymor cynhyrchu PEDL.

Mae'n rhaid derbyn y cydsyniadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn i'r gweithgarwch neu'r newid i drwydded gychwyn.

11. Beth yw rhaglen waith PEDL?

Mae'r Tymor Cychwynnol yn cynnwys rhaglen waith o weithgarwch fforio y bydd yr awdurdod trwyddedu a'r deiliad trwydded wedi ei gytuno yn rhan o'r broses o wneud cais am drwydded. Bydd y drwydded hon yn dod i ben ar ddiwedd y Tymor Cychwynnol oni bai fod deiliad y drwydded wedi cwblhau'r rhaglen waith a gytunwyd, neu wedi gwneud cais llwyddiannus am estyniad i'r cyfnod fforio gan yr awdurdod trwyddedu.

12. Beth yw Cynllun Datblygu'r Maes?

Bydd pob PEDL yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwydded dderbyn cydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn gosod cyfleusterau neu gynhyrchu petrolewm. Y Cynllun Datblygu'r Maes (FDP) yw'r ddogfen ategol ar gyfer awdurdodiadau datblygu a chynhyrchu Gweinidogion Cymru. Bydd cynhyrchu petrolewm yn cael ei awdurdodi dim ond pan fydd Gweinidogion Cymru yn fodlon bod yr FDP yn bodloni eu gofynion.

Dylai FDP gynnwys disgrifiad o'r maes petrolewm, gan gynnwys amcangyfrifon o gronfeydd petrolewm, cynlluniau datblygu a rheoli, a chyfleusterau drilio a chynhyrchu. Wrth ystyried pa un a ddylid awdurdodi cynnig datblygu, bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd i ystyriaeth pa un a yw'r prosiect arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion polisi'r Llywodraeth a pha un a yw'r dulliau a gynigir yn cydymffurfio ag arferion maes olew da. Wrth ystyried yr hyn sy'n cyfateb i arfer da, bydd cynigion y deiliaid trwydded yn cael eu cymharu ag arferion a fabwysiadwyd mewn datblygiadau llwyddiannus tebyg.

13. Beth yw cydnabyddiaeth trwydded (rhent)?

Mae ffi flynyddol o'r enw cydnabyddiaeth neu rent yn gysylltiedig â phob trwydded PEDL, ac fe'i pennir ar adeg caniatáu'r drwydded. Mae ffi rhent yn ddyledus bob blwyddyn union flwyddyn ar ôl dechrau'r drwydded. Caiff rhent ei godi ar gyfradd sy'n cynyddu'n raddol ar sail pob cilomedr sgwâr y mae'r drwydded yn berthnasol iddo ar y dyddiad hwnnw. Mae rhent wedi ei gynllunio i annog deiliaid trwydded i gadw ac ildio erwau nad ydynt yn dymuno manteisio arnynt. Mae pennu'r gyfradd rent yn bŵer a gadwyd i Drysorlys San Steffan.

14. A all Gweinidogion Cymru ddirymu trwydded gyfredol?

Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am reoli trwyddedau petrolewm cyfredol yn unol ag amodau'r drwydded ac egwyddorion cyffredinol cyfraith gyhoeddus. Mae gan ddeiliaid trwydded cyfredol hawliau trwydded parhaus i fanteisio ar betrolewm mewn ardal ddaearyddol benodol am gyfnod o hyd at 30 mlynedd. Gall deiliad trwydded gadw'r drwydded yn amodol ar arsylwi telerau ac amodau'r drwydded, gan gwblhau rhaglenni gwaith a gytunwyd yn unol â'r amserlenni a gytunwyd, a thalu'r ffi rent (cydnabyddiaeth) briodol.

Nid yw trwyddedau yn rhoi hawl awtomatig i ddeiliad y drwydded gychwyn gweithrediadau echdynnu petrolewm. Mae angen amrywiaeth o drwyddedau cynllunio ac amgylcheddol ychwanegol cyn y gall gwaith datblygu gychwyn.

15. A ellir ymestyn Tymor?

Mae'n anochel y bydd risg y bydd hyd yn oed y deiliaid trwydded mwyaf diwyd yn cael eu hatal rhag cyflawni rhaglenni gwaith a gytunwyd ar gyfer bob Tymor gan ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth (gan gynnwys mympwyon daeareg a drilio, pris olew a mynediad at dir) ac mae'r potensial ar gyfer amrywiadau a gytunir o ran hyd a gofynion y tymhorau yn cynnig cydbwysedd rhesymol rhwng cerrig milltir amcan eglur a hyblygrwydd rhesymol.

Gellir gwneud ceisiadau ar gyfer amrywiadau yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, ac os cânt eu cytuno byddant yn cael eu gweithredu trwy hysbysiad fel rheol. Bydd y drwydded yn dod i ben (pennu) os na fydd tymhorau'r drwydded yn cael eu hymestyn.

Wrth ystyried ceisiadau i ymestyn tymhorau trwydded, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried amgylchiadau perthnasol, a allai gynnwys y canlynol, heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Polisïau petrolewm perthnasol Cymru.
- Pa un a yw deiliad y drwydded wedi gweithio'n ddiwyd i fodloni'r terfyn amser perthnasol a/neu wedi cael ei atal rhag gwneud hynny gan ffactorau y tu hwnt i'w reolaeth.
- Cysondeb â phenderfyniadau mewn achosion tebyg.

16. Ble allaf i ddod o hyd i gopïau o drwyddedau cyfredol, ceisiadau, Cynlluniau Datblygu'r Maes, data seismig a data ffynhonnau?

Caiff data ffynhonnau a seismig hanesyddol eu harchifo gan [Lyfrgell Geoffisegol Ar y Tir y DU](#) (UKOGL) ar hyn o bryd.

17. Beth yw swyddogaeth yr Awdurdod Olew a Nwy?

Yr Awdurdod Olew a Nwy yw'r awdurdod trwyddedu petrolewm ar y tir ar gyfer erwau sydd wedi eu lleoli yn ardal ar y tir Lloegr. Ni all yr Awdurdod Olew a Nwy gyflwyno trwyddedau newydd neu gydsyniadau trwydded o ran ardal ar y tir Cymru.

18. A yw Nwyeiddio Glo Tanddaearol wedi ei gynnwys o dan y swyddogaeth trwyddedu petrolewm?

Rheoleiddir nwyeiddio glo tanddaearol gan yr Awdurdod Glo ac nid yw'n gofyn am drwydded Deddf Petrolewm 1998 gan Weinidogion Cymru. Nwyeiddio Glo Tanddaearol yw'r broses o greu nwy synthesis trwy hylosgi glo yn y fan a'r lle. Nid yw'r nwy synthesis yn betrolewm gan nad yw'r nwy yn bodoli'n naturiol yn y cerrig.

19. Pwy sy'n rheoleiddio gweithgareddau petrolewm yng Nghymru?

Rheolir y gwaith o reoleiddio gweithgarwch trwyddedau petrolewm yng Nghymru gan nifer o gyrff, pob un â swyddogaeth a chylch gwaith penodol.

Body	Role
Welsh Ministers	A developer must obtain the relevant petrolewm licence from Welsh Ministers before any further permissions can be obtained (except where a licensee already has a licence issued before 1st October 2018). Welsh Minister's consent is also required to appoint a licence operator (a person with responsibility for organising or supervising petrolewm operations). For existing licences, the licensee must obtain the relevant well consent from Welsh Ministers before drilling or production can commence. Before a consent application is submitted to Welsh Ministers, the operator must first obtain the additional consents or permissions outlined below.
Local Planning Authority	Companies must seek consent from the Local Planning Authority for all surface works associated with a petrolewm development life-cycle (construction, operation, maintenance, decommissioning and abandonment). The local planning authority will consider issues such as noise, light, traffic, flood risk and air pollution.
NRW	Companies must apply for the necessary environmental permits associated with any activity that is captured by the relevant environmental legislation. NRW regulates activities that may cause pollution or that pose other risks to the environment throughout the life cycle of a petrolewm development.
HSE	The HSE ensures the operator is managing the health and safety risks appropriately throughout the life cycle of a petrolewm development. In particular, the HSE are responsible for ensuring the appropriate design and construction of a well.
The Coal Authority	The Coal Authority is responsible for granting consent for activity which cuts across, disturbs or enters coal seams.

Sut caiff ceisiadau am gydsyniad eu penderfynu?

20. Faint o drwyddedau petrolewm cyfredol sydd ar waith yng Nghymru?

Ceir 14 PEDL ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, y cwbl wedi eu cyflwyno cyn 1 Hydref 2018. Gellir gweld lleoliad a maint y trwyddedau petrolewm cyfredol yng Nghymru ar wefan [Llyfrgell Geoffisegol Ar y Tir y DU](#).

21. Pa archwiliadau fydd Gweinidogion Cymru yn eu cyflawni cyn cyflwyno cydsyniad neu ganiatâd?

Bydd Gweinidogion Cymru yn craffu ar yr holl geisiadau am gydsyniadau o dan drwydded bresennol i sicrhau bod y cais arfaethedig:

- yn cydymffurfio â'r gyfraith,

- yn dangos arfer maes petrolewm da, ac
- i fodloni ein hunain bod systemau gweithredol a rheoli amgylcheddol effeithiol ar waith.

Bydd natur benodol yr archwiliadau a gynhelir gan Weinidogion Cymru yn dibynnu am y math o gydsyniad y mae'r ymgeisydd yn ei geisio. Mae'r canlynol yn amlygu rhai o'r materion allweddol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried.

Ceisiadau am gydsyniad i ddrilio ffynnon fforio neu gynhyrchu – Mae'r broses o dderbyn cydsyniad i ddrilio ffynnon yr un fath pa un a yw'r ffynnon wedi ei thargedu at betrolewm confensiynol neu anghonfensiynol. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cydsyniad i ddrilio dim ond pan fyddant yn fodlon:

- Bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi caniatâd i ddrilio a bod yr amodau cynllunio perthnasol wedi eu bodloni.
- Bod yr holl drwyddedau angenrheidiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar waith.
- Bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn fodlon gyda dyluniad y ffynnon.
- Bod y gweithredwr wedi trefnu archwiliad o ddyluniad y ffynnon gan archwilydd ffynhonnau annibynnol cymwys.
- Bod Arolwg Daearegol Prydain (BGS) wedi cael ei hysbysu am y bwriad i ddrilio.

Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn asesu'r data geotechnegol a ddarperir gan ddeiliad y drwydded ac yn adolygu ei gynlluniau gweithredol ar gyfer safle'r ffynnon, gan gynnwys y posibilrwydd o ffynhonnau camgyfeirio, ysgogi ffynhonnau, a chynlluniau i arbed neu ffaglu nwy wrth brofi am hydrocarbonau. Bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd safbwynt rheoleiddwyr perthnasol eraill i ystyriaeth a hefyd yn adolygu gallu ariannol y gweithredwr i dalu costau hysbys.

Cydsyniad i gynhyrchu petrolewm – Bydd cynhyrchu petrolewm yn cael ei awdurdodi dim ond pan fydd Gweinidogion Cymru yn fodlon bod yr FDP yn bodloni eu gofynion.



Gweithredwriaeth – Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru awdurdodi unrhyw unigolyn a fydd yn gyfrifol am drefnu neu oruchwylio gweithrediadau petrolewm. Wrth ystyried unrhyw gais am weithredwriaeth o'r fath, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried profiad technegol unigolyn a'i allu i oruchwylio, rheoli a chyflawni'r gweithrediad arfaethedig.

Ildio trwyddedau - Os bydd deiliad trwydded yn gwneud cais i ildio erwau ar drwydded, neu'r drwydded gyfan, bydd Gweinidogion Cymru yn dilysu bod yr holl ffynhonnau yn yr ardal drwyddedig wedi cael eu llenwi a'u gadael yn briodol cyn cytuno i hyn.

22. Ffiniau trwyddedau petrolewm

Mae lleoliad a maint datblygiad fforio a chynhyrchu petrolewm wedi ei gyfyngu'n llym i ffiniau bloc ardal PEDL wedi ei ddiffinio ymlaen llaw. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad, gan gynnwys unrhyw ddrilio llorweddol yn ddwfn o dan y ddaear, y tu allan i floc ardal PEDL.

Mae arwynebedd y PEDL cyfredol yng Nghymru i'w weld yn [Llyfrgell Geoffisegol Ar y Tir y DU](#) ac isod.



Ffigur 1. PEDL cyfredol ag erwau yng Nghymru (PEDL Gogledd Cymru a PEDL De Cymru)

Tabl 2: Trwyddedau Fforio a Datblygu Petrolewm (PEDL) Cyfredol

Licence	Licensee Name	Licence Start Date	1st Term Ends Date	2nd Term End Date	Licence End Date	Local Authority
EXL203	Biogas Technology	01/10/91	30/09/97	30/09/02	30/09/22	Wrexham
PEDL014	Alkane Energy UK	04/04/96	03/04/02	03/04/08	03/04/27	Bridgend
PEDL100	Coastal Oil and Gas	08/09/00	07/09/08	07/09/11	07/09/31	Neath Port Talbot
PEDL147	IGas	01/10/04	30/09/11	30/09/17	30/09/35	Flintshire
PEDL148	UK Methane	01/10/04	30/09/11	30/09/16	30/09/35	Neath Port Talbot
PEDL149	UK Methane	01/10/04	30/09/11	30/09/16	30/09/35	Bridgend
PEDL157	Sonorex Oil and Gas	01/10/04	30/09/10	30/09/16	30/09/35	Newport
PEDL184	IGas	01/07/08	30/06/16	30/06/19	30/06/39	Flintshire
PEDL214	UK Methane	01/07/08	30/06/20	30/06/22	30/06/39	Swansea
PEDL215	UK Methane	01/07/08	01/07/20	01/07/22	30/06/39	Neath Port Talbot
PEDL216	Coastal Oil and Gas	01/07/08	02/07/20	02/07/22	30/06/39	Bridgend
PEDL217	Coastal Oil and Gas	01/07/08	03/07/20	03/07/22	30/06/39	Vale of Glamorgan
PEDL224	Sonorex Oil and Gas	01/07/08	04/07/20	04/07/22	30/06/39	Newport & Monmouthshire